# Mysterious AFAN Cudd

# Ceffylau yn yr Oesoedd Canol

Yn yr Oesoedd Canol roedd ceffylau'n hanfodol ar gyfer cludo nwyddau a phobl ar y tir, yn ogystal ag at ddiben rhyfela.

Roedd ceffylau yn wertyhfawr iawn ac roedd arnynt angen llawer o fwyd a gofal.

Yn ystod y gaeaf, byddai ceffyl yn cael ei fwydo gydag hanner bwsiel o geirch (32 pwys) y dydd, yn ogystal â thair torth o fara ceffyl.

Mae barddoniaeth canoloesol Cymreig yn llawn cyfeiriadau at geffylau. Yn y cerddi sy'n gofyn cymwynas neu'n estyn diolch, ceffyl yw'r anifail mwyaf poblogaidd i'w waddoli.

Marchogaeth oedd y prif ddull o deithio; roedd yn llawer mwy effeithliol na theithio ar droed, yn enwedig o ystyried bod llai o ffyrdd yn bodoli a bod rhain, yn aml, yn fwdlyd. Roedd teithio'n llawer anoddach nag y mae heddiw, yn enwedig pan yn ceisio croesi afonydd.

'Rydym wedi clywed hanes Gerallt Gymro yn adrodd fel roedd ei geffyl wedi mynd yn sownd yn y mwd wrth groesi Afon Nedd, a sut roedd bron â cholli ei lyfrau o ganlyniad, gan eu bod wedi'u llwytho ar gefn y ceffyl.



Llun canoloesol o Balffrai
BritLibAddMS35166ApocalypseUnkFolio3SealBlackHorse.jpg
y Parth Cyhoeddus

# MYSTERIOUS AFAN CUDD



Ceffyl Cymreig cyfoes sydd wedi ennill gwobrau: Elevage de maika, CC BY-SA 4.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0>, via Wikimedia Commons

Mae'n ymddangos bod i geffylau arwyddocad arbennig mewn rhyddiaith a barddoniaeth y traddodiad Cymreig byth oddiar yr Oesoedd Canol cynnar. Mae'r beirdd yn cyfeirio'n aml at geffylau enwog y gorffennol, gan eu cysylltu â seintiau neu arwyr mytholegol.

Mae mawl i noddwr am ei gyflenwad o geffylau hefyd i'w weld yn aml yn y cerddi. Roedd rhai noddwyr yn bridio ceffylau. Yn y 1400au, roedd y bardd Guto'r Glyn wedi ysgrifennu cerdd o fawl i'r Abad Dafydd ab Owain o Abaty Ystrad Marchell ger y Drenewydd ym Mhowys, a oedd ar un adeg y fynachlog Sistersiadd fwyaf yn Nghymru, ac a sefydlwyd gan Owain Cyfeiliog yn 1170.

Mae'r bardd yn tynnu sylw at geffylau'r abad ac yn canmol tiroedd yr abaty lle y mae bwyd o ansawdd yn cael ei dyfu ar gyfer y ceffylau:

*Ni bu dir yn y byd well,*
*Bwyd meirch lle bu ŷd Marchell,*
*Gwenithdir, gweirdir a gwŷdd,*
*A galw 'dd wyf Arglwydd Ddafydd*

Roedd Powys yn enwog am ei geffylau: roedd Gerallt Gymro ac awduron eraill wedi clodfori ceffylau tywysogion Powys yn y ddeuddegfed ganrif.



Bwystawr Brenhinol, Lloegr, c. 1200 – c. 1210, MS Brenhinol 12 C XIX, ff. 34r
https://britishlibrary.typepad.co.uk/digitisedmanuscripts/2014/04/page/2/

## Y mathau o Geffylau Canoloesol


Yn y cyfnod hwn nid oedd bridiau, fel yr ydym yn eu deall nhw, mewn gwirionedd yn bodoli. Roedd ceffylau'r canol oesoedd yn cael eu categoreiddio o ran pwrpas, yn hytrach na brid. Fel sy'n digwydd o hyd, roeddent yn cael eu mesur mewn dyrnfeddi ac nid modfeddi (roedd un dyrnfedd yn mesur tua 4 modfedd, ac mae tri dyrnfedd mewn troedfedd). Ar gyfartaledd, roedd ceffyl yr Oesoedd Canol yn mesur rhwng 13 ac 14 dyrnfedd o daldra.

Ar gyfartaledd, byddai person cyfoethog yn mynd i ryfel gyda phum ceffyl. Fel arfer byddai hyn yn cynnwys dau balffrai ar gyfer teithio, Ceffyl Rhyfel ar gyfer y frwydr a pâr o Gadfeirch er mwyn dianc yn gyflym.

### Y gwahanol fathau o geffylau:

### Rhygynfeirch neu Gwffylau Palffrai

Roedd rhain yn geffylau addfwyn, o olwg cain, gyda cherddediad llyfn. Roeddent yn cael eu parchu'n fawr gan y bonheddwyr oherwydd eu bod yn ysgafn ac yn gyfforddus ar gyfer taith hir. Roedd hefyd modd eu defnyddio mewn brwydr, oherwydd eu bod yn gallu symud yn gyflym ac hawdd hyd yn oed ar dir anwastad. Os roeddent yn arbennig o hardd, roedd ceffylau Palffrai yn derbyn gofal arbennig.



Artist anhysbys - Dalimilova kronika, y Parth Cyhoeddus, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=15812820



Ceffylau mewn ymwan Gan Feistr Codex Manesse - http://digi.ub.uni-heidelberg.de/diglit/cpg848/0099, wedi'i addasu gan Beatrix Belibaste, y Parth Cyhoeddus  https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=1625673

### Ceffylau Rhyfel

Y Ceffyl Rhyfel, neu'r Ceffyl Mawr oedd y ceffyl rhyfel mwyaf, cryfaf a mwyaf prin. Roeddent hefyd yn ddrud, felly dim ond marchog cyfoethog allai fforddio marchogaeth ceffyl rhyfel. Roedd y ceffyl rhyfel wedi'i fridio'n arbennig ar gyfer ymladd ar gefn ceffyl, ac am y nodweddion a fyddai'n ei wneud yn gadfarch llwyddiannus.

Roedd y meirch rhyfel yn fawr (o ystyried safonau'r cyfnod, yn mesur tua 15.2 dyrnfedd) ac yn boeth eu gwaed, wedi'u bridio'n arbennig i fod heb ofn y frwydr. Roedd angen iddynt fod yn fawr a chryf er mwyn cario marchogion wedi'u harfwisgo – yn ogystal â chyfrwy, harneis, arfwisg y ceffyl ei hun ac arfau. Ambell waith byddai meirch rhyfel yn tynnu wagen, cymryd rhan mewn twrnamaint ac….. ymosod ar geffylau eraill drwy eu cicio a'u brathu.

Roedd y ceffyl rhyfel yn cael ei edmygu am ei allu mewn rhyfel. Roedd wedi'i hyffordi'n dda, yn gadarn o gorff ac roedd angen iddo fod yn gryf, cyflym a sionc. Disgrifiwyd y ceffyl rhyfel fel "y ceffyl mawr", oherwydd ei faint a'i fri ond, serch hynny, nid oedd ceffylau'r cyfnod yn rhai mawr, ac efallai y byddant yn ymddangos yn fach i ni.

Ystyriwyd y ceffyl rhyfel yn werthfawr iawn gan farchogion a milwyr arfog ond, a dweud y gwir, nid oeddent yn gyffredin iawn, ac mae'n ymddangos eu bod yn fwyaf addas at yr ymwan.



O *Historia Major*: Matthew Paris, Caergrawnt, Llyfrgell Corpus Christi, cyf. 2, t. 85. Sganiwyd o *Four Gothic Kings*, Elizabeth Hallam, ed.) y Parth Cyhoeddus



Dyluniad o'r 12fed ganrif yn dangos marchog ar gefn ceffyl; mae'n bosibl taw cadfarch yw hwn.
Ffolio 8 recto o Fwystawr Aberdeen . Manylyn: y Parth Cyhoeddus.

## Cadfeirch neu Helfeirch

Roedd y cadfarch yn geffyl ychydig yn llai, cyflymach ac ysgafnach a oedd dal, yn gyffredin, i'w weld mewn brwydr. Roeddent yn llai drud na cheffyl rhyfel ac yn gyffredinol yn fwy defnyddiol. Roedd cadfeirch yn geffylau chwim, penboeth a ddefnyddiwyd gan fwyaf gan **negeswyr canoloesol** a raswyr.



Ceffyl Gwedd yn aredig yn Hampshire
https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/4/46/Shire_horses_ploughing.jpg

**Ceffylau Cert neu Geffylau Gwedd**

Roedd ceffylau cert yn ufudd a thawel. Defynyddiwyd nhw gan fwyaf at ddibenion masnachol megis cludo nwyddau, troi melinau ac aredig. Yng Ngogledd Lloegr, eu tarddle, roeddent yn cael eu galw'n Geffylau Gwedd. Roedd rhai ohonynt yn mesur taldra o 18 dyrnfedd!

Mae ceffylau gwedd yn dal i gael eu bridio yng Nghymru, yn benodol mewn greoedd yn Nhywyn, Sir Feirionnydd a Chrymych, Sir Benfro.

**Ceffylau Rownsi**

Ceffyl at wasanaeth bob dydd oedd y rownsi, yn ddelfrydol ar gyfer teithwyr ac ysweiniaid. Roeddent fel arfer ar gael i'w llogi, oherwydd nid oedd pawb yn gallu fforddio berchen ceffyl. Byddai marchog tlawd neu filwr arfog yn ei farchogaeth ar bob achlysur, boed rhyfel neu heddwch.

**Corfeirch**

Roedd y ceffylau bychan neu ferlod hyn wedi'u bridio i gerdded, ac yn cael eu ffafrio gan foneddigesau a phererinion. O bryd i'w gilydd defnyddiwyd corfeirch gan y marchoglu fel ceffylau ysgafn.



Boneddiges yn heboga ar gefn corfarch. Meistr y Codex Manesse, Llyfrgell Prifysgol Heidelberg. y Parth Cyhoeddus, via Wikimedia Commons

# MYSTERIOUS AFAN CUDD

### Pynfeirch neu Geffylau Cert

Ynghyd â mulod ac asynnod, roedd pynfeirch a cheffylau cert yn dawel ac hawdd eu trin. Roeddent yn ddelfrydol am gludo nwyddau masnachol.



Cert gwair. Goliwiad gan Simon Bening yn y ‘Golf Book of Hours’ (c. 1530), Y Llyfrgell Brydeinig, Add MS 24098, ffol. 25r.

### Swyddi yn gysylltiedig â cheffylau yn yr Oesoedd Canol

Yn yr oesoedd canol roedd **Meistri’r Stablau** a **Gweision Stabl** yn gyfrifol am yr holl agweddau ar reoli ceffylau a stablau. Tra bod meistri stabl fel arfer yn gweithio i, neu’n berchen ar,sefydliadau mwy o faint, byddai gweision stabl yn gweithio mewn preswylfeydd preifat.

Y gweision stabl oedd yn glanhau’r stablau, yn bwydo’r ceffylau ac yn eu hymarfer. Roeddent fel arfer “ar alw”, yn barod i baratoi’r ceffylau pan roedd aelod o’r teulu am farchogaeth.



Bwystawr Brenhinol, Lloegr, c.200 – c. 210, MS Brenhinol 12 C XIX, ff. 34r
https://britishlibrary.typepad.co.uk/digitisedmanuscripts/2014/04/page/2/

Y testun wedi’i addasu o’r wefan:
http://www.gutorglyn.net/gutoswales/amaeth-anifeiliaid-meirch.phphttps://www.reddit.com/r/AskHistorians/comments/2i2ut5/who_bred_and_trained_medieval_european_warhorses/

Llyfryddiaeth:

Medieval Warfare: A History, Edited by Maurice Keen.
The Culture of the Horse: Status, Discipline, and Identity in the Early Modern World, edited by Karen Raber and Treva j. Tucker.
A Knight and his Horse by Ewart Oakeshott.